

# Teuluoedd yn Gyntaf Blaenau Gwent

## Cynnwys


1 Beth yw Teuluoedd yn Gyntaf

2 Beth yw Teuluoedd yn Gyntaf

3 Cymorth i Ofalwyr Ifanc

4 Cymorth Anabledd

5 Cymorth Rhianta

6 Cynghorwyr Teuluoedd yn Gyntaf

7 Gwasanaeth Eiriolaeth Teuluoedd yn Gyntaf

8 Gwybodaeth Ddefnyddiol


## Beth yw Teuluoedd yn Gyntaf?

TMae’r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru i helpu teuluoedd sy’n wynebu anawsterau. Mae’r tîm Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnig gwahanol fathau o gymorth yn dibynnu ar yr anghenion.

Mae’n rhoi pwyslais ar ymyrraeth gynnar, atal a darparu cymorth i deuluoedd cyfan, yn hytrach nag unigolion.

**Mae gan y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ddau brif nod:**

- Cefnogi pobl ifanc a theuluoedd i gyflawni eu llawn botensial...
- Helpu i wella iechyd a llesiant teuluoedd a chefnogi pob agwedd ar rianta.



Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ymwneud â darparu cymorth i'r teulu cyfan. Ym Mlaenau Gwent mae'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i lleoli yng Nghanolfan Integredig i Blant Calon y Cymoedd yn Blaenau.

- Wrth weithio gyda theuluoedd rydym yn cwblhau asesiad i edrych ar y gwahanol heriau y gallent fod yn eu hwynebu. Gelwir hyn yn JAFF (Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd).
- Rydym yn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau gwahanol yn cydweithio i gynnig y cymorth gorau i deuluoedd drwy'r Tîm o Amgylch y Teulu. Er enghraifft, Ysgolion, Ymwelwyr Iechyd a Thai.
- Darparu gwahanol fathau o gymorth gyda'ch cymuned, ysgol eich plentyn a sesiynau un i un. Er enghraifft, rheoli ymddygiad eich plentyn a helpu i wella presenoldeb yn yr ysgol.
- Darparu cymorth gyda materion fel:
    - cam-drin domestig
    - tai
    - iechyd meddwl gwael
    - camddefnyddio sylweddau

Os mai'r rhain yw'r materion yr ydych yn eu hwynebu fel teulu, gallwn ddarparu cymorth a gweithio ar y cyd â gwasanaethau arbenigol i'ch helpu.

- Gweithio ochr yn ochr ag Ymwelwyr Iechyd a Nyrsys Ysgol i ddarparu cyngor a chymorth iechyd ychwanegol

## Cymorth Teuluoedd yn Gyntaf

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ymwneud â darparu cymorth i'r teulu cyfan. Ym Mlaenau Gwent mae'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i lleoli yng Nghanolfan Integredig i Blant Calon y Cymoedd yn Blaenau.

- Gweithiwr Allweddol i deuluoedd gyda chanlyniadau sydd wedi'u trafod fel rhan o JAFF.
- Cymorth arbennig i blant a phobl ifanc sydd â chyfrifoldebau gofalu.
- Cymorth i blant ag anableddau ac anghenion cymhleth a'u teuluoedd.
- Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnal panel Llesiant SPACE (Un Pwynt Mynediad ar gyfer Llesiant Emosiynol Plant) ar gyfer Blaenau Gwent.

***Nod hirdymor Teuluoedd yn Gyntaf yw helpu teuluoedd i ddod yn hyderus ac yn wydn i ymdopi ar eu pen eu hunain...***

## Cymorth i Ofalwyr Ifanc

**E-bost: FamiliesFirstYoungCarers@blaenau-gwent.gov.uk**
**Facebook: Families First Young Carers**

- Mae'r prosiect Gofalwyr Ifanc yn darparu amgylchedd diogel i gefnogi pobl ifanc a allai gael eu heffeithio gan unrhyw rôl gofalu. Er enghraifft: y rhai y gallai salwch, iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau effeithio ar eu rhiant neu ofalwr. Gall cyfrifoldebau gofalu fynd y tu hwnt i riant neu ofalwr, gall hyn fod yn frawd neu chwaer, mam-gu neu dad-cu/nain neu daid neu gymydog.
- Hyrwyddo ac amddiffyn llesiant corfforol ac emosiynol gofalwyr ifanc.
- Clwb ieuenctid wythnosol i helpu i ddatblygu gwell gwydnwch, hyder, sgiliau a gwybodaeth ac i ddarparu seibiant.
- Bydd gofalwyr ifanc yn cael eu hannog i fynychu'r fforwm ieuenctid sy'n darparu llwyfan lle gall y rhai sy'n gallu gwneud gwahaniaeth i'w bywydau glywed lleisiau gofalwyr ifanc.
- Mynediad i Gynllun Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc Llywodraeth Cymru.



## Cymorth Anabledd

Mae darparu cymorth penodol i deuluoedd plant anabl yn rhan allweddol o Teuluoedd yn Gyntaf. Bydd y tîm yn gweithio gyda'r teuluoedd i sicrhau eu bod yn gallu cyrchu eu holl hawliau a dod yn fwy ymwybodol o'r holl gyfleoedd sydd ar gael iddynt.

**Clwb Celf wythnosol i bobl ifanc 16 – 25 oed:**
Nod y grŵp hwn yw hybu a chefnogi sgiliau cymdeithasol, annibyniaeth a sgiliau bywyd.

Cynhelir grŵp integredig bob wythnos ac mae'n agored i blant ag anghenion cymhleth fynychu gyda'u teuluoedd. Mae hwn yn gyfle i chwarae ac i deuluoedd ddod at ei gilydd am gymorth.

Bydd Teuluoedd yn Gyntaf yn cefnogi teuluoedd i ddod o hyd i ddarpariaethau ar gyfer gweithgareddau chwarae a hamdden i'w plant, gan sicrhau bod y lleoliadau'n hyderus i ddiwallu eu hanghenion. Mae pob sesiwn a gyflwynir gan Teuluoedd yn Gyntaf ar draws y fwrdeistref yn gynhwysol ac yn croesawu pob teulu.



## Cymorth Rhianta

- Mae Camau Bach bellach yn rhedeg yn rheolaidd ym Mlaenau Gwent. Mae gweithwyr cymorth yn hwyluso ac yn rhedeg y grwpiau.
- Os nad yw lleoliad grŵp yn addas i chi, weithiau gellir darparu cymorth rhianta ar sail un-i-un yn y cartref neu'n rhithiol.
- Gall cymorth rhianta helpu gyda:
  - Adeiladu a gwella eich perthynas gyda'ch plentyn
  - Rheoli ymddygiad heriol
  - Dod â'r gorau allan o'ch plentyn
  - Ysgogi eich plant
  - Cryfhau perthnasoedd teuluol
- Rydym yn cynnig gwasanaeth Cyfryngu o fewn y tîm – mae hwn yn hygyrch i unrhyw deuluoedd sy'n agored i Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg neu Wasanaethau Plant. Am ragor o fanylion, dewch o hyd i'n gwybodaeth gyswllt o dan Gwybodaeth Ddefnyddiol.

Weithiau gellir darparu cymorth rhianta ar sail un-i-un yng nghartref y teulu, neu fel rhan o grŵp o fewn lleoliad cymunedol neu'n rhithiol.



## Cynghorwyr Teuluoedd yn Gyntaf

- Mae gan Teuluoedd yn Gyntaf gynghorwyr sydd wedi'u lleoli ym mhob ysgol ar draws Blaenau Gwent.
- Gall teuluoedd ddod i mewn a chwrdd â'r cynghorwyr a thrafod unrhyw faterion y gallech fod yn eu hwynebu fel teulu a thrafod unrhyw gymorth y gall Teuluoedd yn Gyntaf ei ddarparu.
- Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu cymorth gyda lefelau amrywiol o angen ac os ydych chi'n cael anawsterau, gofynnwch am gymorth/cyngor trwy eich cynghorwyr Teuluoedd yn Gyntaf pan fyddan nhw yn ysgol eich plentyn.
- Gall athro'ch plentyn roi rhagor o wybodaeth i chi am hyn a chan eu bod wedi'u lleoli yn yr ysgolion, gellir cwrdd â theuluoedd i roi cyngor ar y cymorth sydd ar gael



## Gwasanaeth Eiriolaeth Teuluoedd yn Gyntaf

.Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cefnogi darparu Gwasanaeth Eiriolaeth. Mae'r Gwasanaeth Eiriolaeth yn sefydliad annibynnol o'r enw NYAS. Mae NYAS yn cynnig cymorth i blant a phobl ifanc sy’n teimlo’n anhapus am rywbeth ac nad ydynt yn teimlo bod gwasanaethau’n gwrando arnynt. Gall NYAS eich helpu i stopio, dechrau neu newid rhywbeth.

***Eiriolwr yw rhywun a fydd yn gwrando ar eich problem ac a fydd yn gweithio gyda chi i ddod o hyd i ffyrdd o unioni pethau drwy eich helpu i siarad â’r bobl gywir.***

Gall NYAS eich helpu i sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed, gallwn:

- Darparu rhywun sy’n eich cynrychioli
- Cael rhywun i wrando arnoch chi
- Cefnogi eich dymuniadau a’ch teimladau
- Eich helpu i wneud cwyn
- Siarad drosoch chi
- Eich helpu i ddeall eich hawliau
- Eich cynnwys chi wrth wneud penderfyniadau amdanoch chi



## Gwybodaeth Ddefnyddiol

- **Cysylltu â Thîm Teuluoedd yn Gyntaf**
  E-bost: familiesfirstduty@blaenau-gwent.gov.uk
  Ffôn: 01495 369621
  Facebook: Families First – Blaenau Gwent

- **Cysylltu â Thîm Teuluoedd yn Gyntaf**
  E-bost: fis@blaenau-gwent.gov.ukF
  Ffôn: 01495 369610
  Facebook: Blaenau Gwent Family Information Service

- **Cysylltu â’r Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth**
  E-bost: duty.team@blaenau-gwent.gov.uk
  Ffôn: 01495 315700

